# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru - Gwasanaethau Gofal Croesffyrdd**

**Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru**
**Parc Menter Quinton Hazell**
**Ffordd Glan y Wern**
**Bae Colwyn**
**LL28 5BS**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

08/08/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru - Gwasanaethau Gofal Croesffyrdd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru - Gwasanaethau Gofal Croesffyrdd |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Dyma arolygiad cyntaf y gwasanaeth ers iddo ailgofrestru o dan Ddeddf Cofrestru ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu seibiant i bobl sy'n gofalu am eu hanwyliaid yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r bobl sy'n derbyn y gwasanaeth hwn yn fodlon ar y cymorth a'r gofal a ddarperir. Gwnaethom gwrdd â phobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Dywedodd un unigolyn, *"It's the most important two hours for me; it's not just help, it is humour, I start the day with a smile."*

Mae'r staff gofal yn fedrus, yn gefnogol ac yn wybodus. Mae sawl aelod o'r staff gofal wedi gweithio yn y gwasanaeth ers cryn amser. Mae hyn yn cynnig cysondeb gan fod y bobl yn cael gofal gan yr un staff gofal, sy'n rhoi tawelwch meddwl i'w teulu pan fyddant yn cael seibiant.

Mae'r tîm rheoli yn goruchwylio'r gwasanaeth yn effeithiol ac yn gweithio tuag at welliannau parhaus drwy system fonitro gadarn. Caiff y gofal ei adolygu a chaiff adborth ei gasglu'n rheolaidd gan y bobl, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol. Mae'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn mynychu sesiynau grŵp cymorth, sy'n cael eu hwyluso gan y staff gofal. Maent yn cynnig cymorth estynedig lle gall y bobl hefyd barhau mewn cysylltiad, lle gellir darparu gwybodaeth, cymorth a chyfeiriadau hanfodol, yn ogystal â chynnig cwmni a chael hwyl. Caiff y Gymraeg ei hystyried wrth baru'r bobl â'r staff gofal.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Rhoddir gwybodaeth iddynt am y gwasanaeth. Mae'r staff gofal a'r tîm rheoli yn cyflwyno eu hunain i'r bobl a'u teuluoedd cyn iddynt gael gwasanaeth. Ar ôl rhannu gwybodaeth, caiff y gwasanaeth ei gynllunio a'i drefnu o gwmpas trefn arferol y bobl a'u hanghenion gofal. Gall y bobl ddewis p'un a hoffent dderbyn y gwasanaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg, gan fod rhai aelodau o'r staff yn siarad Cymraeg. Mae'r tîm rheoli yn monitro'r gofal a ddarperir yn unol ag anghenion a dewisiadau unigol y bobl. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu gofal seibiant, felly gall y gofalwyr ddewis beth i'w wneud pan na fyddant yn gofalu. Dywedodd un unigolyn wrthym "*I'd be lost without this service, who else would I turn to*".

Mae'r gwasanaeth hwn yn helpu'r bobl i fod mor iach ac annibynnol â phosibl. Mae'n galluogi'r bobl a'u gofalwyr i drefnu apwyntiadau iechyd. Mae grwpiau cymorth yn darparu cyngor, cymorth ac arweiniad gan amrywiaeth o siaradwyr gwadd sy'n ymweld. Mae'r grwpiau cymorth hyn yn helpu'r bobl i gael y wybodaeth ddiweddaraf am amrywiaeth o faterion iechyd, gan gynnwys gofal deintyddol a gofal y geg. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y gofal seibiant a ddarperir gan y staff gofal a thrwy ddod i gysylltiad â phobl sydd ag amgylchiadau a chyfrifoldebau tebyg.

Caiff y bobl eu diogelu rhag risgiau posibl. Cynhelir asesiadau trylwyr cyn i'r bobl ddefnyddio'r gwasanaeth. Caiff y staff gofal eu hyfforddi ac maent yn gwybod beth i'w wneud os bydd ganddynt unrhyw bryderon. Gellir cael gafael ar bolisïau a gweithdrefnau cyfredol ac maent yn ategu'r hyfforddiant y mae'r staff gofal yn ei gael, gan gynnwys hyfforddiant diogelu, cwympiadau a chymorth cyntaf. Mae'r tîm rheoli yn monitro unrhyw ddigwyddiadau neu bryderon er mwyn nodi themâu posibl a all beri risg i unigolion. Cynhelir gwiriadau o gartrefi'r bobl hefyd i nodi unrhyw risgiau, er mwyn sicrhau diogelwch y bobl a'r staff gofal sy'n ymweld â nhw.

## Gofal a Chymorth

Mae gan y bobl gynlluniau cywir a chyfredol sy'n nodi sut y dylid darparu gofal er mwyn diwallu eu hanghenion. Yn ystod yr ymweliad cychwynnol, mae'r darparwr yn casglu'r holl wybodaeth berthnasol er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael y gofal cywir ar yr adeg gywir. Caiff anghenion gofal eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol. Mae'r sampl o gofnodion gofal a welsom yn dangos bod yr ymweliadau cychwynnol yn cael eu cofnodi. Caiff adolygiadau gofal eu cynnal yn rheolaidd, sy'n cynnwys y bobl, eu teuluoedd, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr iechyd proffesiynol lle y bo'n briodol. Clywsom alwad ffôn i drafod pecyn gofal unigolyn, gan fod ei anghenion gofal wedi newid. Roedd y cyfathrebu yn glir, cafodd y sgwrs ei chofnodi a threfnwyd dyddiadau ar gyfer adolygu ei anghenion gofal unigol. Caiff copi o'r cofnodion gofal ei gadw yng nghartrefi'r bobl. Dywedodd y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrthym fod y cofnodion gofal yn adlewyrchu eu hanghenion gofal unigol.

Caiff y bobl ofal a chymorth o'r ansawdd sydd ei angen arnynt. Caiff y gwasanaeth ei gynllunio drwy ymgynghori â'r unigolyn, a chan ystyried ei ddymuniadau a'i ddyheadau personol a chanlyniadau unrhyw risgiau ac anghenion arbenigol. Mae'r cynlluniau personol yn fanwl ac yn cynnwys y wybodaeth berthnasol i'r staff gofal ddeall anghenion gofal y bobl a'u trefn arferol. Gwnaethom gwrdd â'r bobl a oedd yn mynychu sesiwn addysgiadol, wedi'i hwyluso gan y staff gofal a'i chyflwyno gan siaradwr gwadd. Roedd y bobl yn mwynhau'r sesiwn hon a gwelsom eu bod wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'i gilydd a gyda'r staff gofal. Gwnaethom siarad â'r grŵp a oedd yn canmol y gwasanaeth. Dywedodd un unigolyn wrthym, “*This service is invaluable and supportive”.*

Mae'r bobl a'u teuluoedd, sy'n cael seibiant, yn cael cymorth i drefnu gofal iechyd a gwasanaethau eraill. Yn ogystal â chyfeirio'r bobl at wasanaethau a chynnig cyngor i'r bobl, mae'r ddarpariaeth seibiant hon yn galluogi'r bobl a'r rhai sy'n gofalu amdanynt i fynychu apwyntiadau iechyd. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth a gwelsom ohebiaeth am apwyntiadau a chyfranogiad gweithwyr iechyd proffesiynol perthnasol, gan gynnwys ffisiotherapyddion, nyrsys ardal a therapyddion galwedigaethol. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod y gwasanaeth yn eu galluogi ac yn eu helpu i fynychu apwyntiadau, gan ddweud “*I don’t know where I would be without them”.*

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae darparwr y gwasanaeth wedi rhoi trefniadau llywodraethu ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth. Caiff gofal a chymorth o ansawdd uchel eu darparu i'r unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth i'w helpu i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae'r darparwr yn gofyn am adborth gan amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys y bobl, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol. Gwnaethom edrych ar yr adborth a gafwyd gan saith sir. Gwelsom adborth cadarnhaol iawn o'r arolygon a gwblhawyd gan y bobl / teuluoedd, a oedd yn nodi bod y gwasanaeth yn rhagorol.

Caiff sylwadau o'r adborth eu cynnwys yn adroddiad blynyddol y gwasanaeth. Mae'r sylwadau yn cynnwys, *“Someone to turn to”, “Make a big difference to me”* ac *“I get a break and it’s very important for my well-being”.* Mae sylwadau eraill yn cynnwys, *“Having the dedicated and caring support of everyone makes a big difference”* ac *“It’s the difference between coping and feeling unable to cope".* Gwnaethom adolygu'r adroddiad diweddaraf o'r adolygiad o ansawdd y gofal. Mae'r adroddiad hwn yn dangos yr hyn y mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn dda a meysydd i'w gwella. Cynhelir cyfarfodydd tîm rheolaidd er mwyn i'r staff gofal a'r tîm rheoli allu rhannu gwybodaeth am y gwasanaeth. Gwelsom amrywiaeth o archwiliadau gan gynnwys archwiliadau o ffeiliau'r staff, hyfforddiant, ffeiliau'r bobl, cyllid, Iechyd a Diogelwch a pholisïau a gweithdrefnau.

Mae darparwr y gwasanaeth yn goruchwylio trefniadau ariannol y gwasanaeth a buddsoddiadau ynddo er mwyn sicrhau ei fod yn gynaliadwy yn ariannol.  Gwnaethom edrych ar gofnodion cyfarfodydd â'r tîm rheoli, sy'n dangos bod cyllid yn cael ei fonitro'n barhaus. Er mwyn cadw'r costau teithio yn isel, mae system ar waith i helpu i gynllunio'r gofal, er mwyn sicrhau mai'r gofalwyr sy'n byw agosaf at y bobl sy'n ymweld â'r bobl hynny.

Caiff unigolion eu cefnogi gan wasanaeth sy'n darparu nifer priodol o staff sy'n addas o ran ffitrwydd ac sy'n meddu ar wybodaeth, cymhwysedd, sgiliau a chymwysterau addas.  Maent yn darparu'r lefelau o ofal a chymorth sydd eu hangen ar y bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae proses sefydlu'r gwasanaeth yn ddiogel ac yn cael ei chofnodi yn ffeiliau'r staff gofal. Caiff gwiriadau priodol eu cynnal a'u cofnodi. Mae'r staff gofal yn cysgodi aelodau mwy profiadol o staff am bythefnos cyn darparu gofal ar eu pen eu hunain. Mae hyn yn golygu bod y bobl yn dod i'w hadnabod ymlaen llaw a bod y staff gofal yn dod yn gyfarwydd â'u hanghenion gofal. Gwnaethom edrych ar gofnodion y cyfarfod tîm staff diweddaraf, a oedd yn dangos bod trafodaethau wedi'u cynnal am Gofal Cymdeithasol Cymru, polisïau, hyfforddiant a meddyginiaeth. Mae'r sampl o ffeiliau'r staff a welsom yn dangos bod y staff gofal wedi cael yr holl hyfforddiant diweddaraf, a'u bod yn cael sesiynau goruchwylio ffurfiol rheolaidd yn unol â'r amserlenni gofynnol. Mae'r cynlluniau hyfforddi a goruchwylio yn dangos bod y dyddiadau yn gyson â'r cofnodion yn ffeiliau'r staff gofal.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 04/10/2024